Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru
Welsh Amateur Music Federation

hydref 2007 autumn

# Adolygiad
# Review



# FFEDERASIWN CERDDORIAETH AMATUR CYMRU

Tŷ Cerdd-Music Centre Wales, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd CF10 5AL

# WELSH AMATEUR MUSIC FEDERATION

Tŷ Cerdd-Music Centre Wales, Wales Millennium Centre, Cardiff CF10 5AL
T: 029 2063 5640 F: 029 2063 5641 E: wamf@tycerdd.info W: www.tycerdd.org

*Cadeirydd/Chairman:* Avril Harding, 7 Archer Road, Penarth, Vale of Glam CF64 2HW
*Trysorydd/Treasurer:* Robert Warren, IPFA, 11 St Asaph Close, Heath, Cardiff CF14 4LD
*Cyfarwyddwr/Director:* Keith Griffin, Tŷ Cerdd, Wales Millennium Centre, Cardiff CF10 5AL
*Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Administrator:* Alexandria James
*Cydlynydd Digwyddiadau/ Events Co-ordinator:* Rhiannon McLean
*Swyddog Cerddoriaeth Ieuenctid/Youth Music Officer*: Matthew Thistlewood

## *Pwyllgor(au)/Committee(s) 2006-2008*

**Bandiau Pres/Brass Bands**

| | |
|---|---|
| Pedr Roberts | Woodlands, Woodlands Road, Mold, Flinstshire CH7 1UW 01352 755958 |
| Gavin Saynor | Penarth, Station Rd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4BA 07966 540 244 |
| D. Anthony Small | 42 Gowerton Road, Penclawdd, Swansea SA4 3XA 01792 850707 |
| Ceri Lewis | 41Bailey Street, Ton Pentre, Rhondda Cynon Taf CF41 7EN 01443 422800 |
| Craig Roberts | 52 High Street, Abergwyfi, Neath SA13 3YW 07901 991013 |

**Côrau (SATB) a Cherddorfeydd/Choirs (SATB) and Orchestras**

| | |
|---|---|
| Jean Stanley Jones MBE | Ambleside, Fagl Lane, Hope, Wrexham LL12 9RB 01352 704097 |
| Marlene Hawker | 12 Woodvale Avenue, Cyncoed, Cardiff, CF23 6SQ 029 2075 9205 |
| Roger Langford | 6 Cotterell Street, Whitecross, Hereford, HR4 0HQ 01432 360154 |
| John S.Davies MBE | Maengwyn, Efailwen, Clunderwen, Carms SA66 7UY 01994 419366 |
| Jane Hodges MBE | 10 Bulford Close, Johnston, Haverfordwest, Pembs SA62 3EX 07866 771164 |

**Côrau Merched/Ladies Choirs**

| | |
|---|---|
| Janet Mabey | 25 St Ilans Way, Caerphilly, Mid Glam CF83 1EW 029 2088 3815 |
| Melanie Thornton | 14 Hafod Street, Hafod, Swansea SA1 2HA 01792 458210 |

**Côrau Meibion/Male Choirs**

| | |
|---|---|
| Paul Harrison | 29 Rhyl Road, Denbigh, Denbighshire LL16 3DT 01745 814753 |
| Carol Davies | Maesydeintur, Trebedw, Henllan, Llandysul SA44 5TN 01559 370291 |
| Tim Edwards | 4, Crystal Wood Drive, Miskin, Mid Glam SA18 3SX 01443 449769 |
| Geraint Morris | 36 Southend Terrace, Pontlottyn, Mid Glam CF81 9RN 01685 841431 |
| Lynette Thomas | Alwenan, 22 Parc Tarell, Llanfaes, Brecon, LD3 8DP 07968 011009 |

**Cymdeithasau Sioeau Cerdd/Musical Theatre Societies**

| | |
|---|---|
| Peter Bird | The White House, 59 Bryn Awelon, Mold CH7 1LT 01352 757976 |
| Ray Kavanagh | 11 Olivet Gardens, Rhos Robin, Wrexham LL11 4RJ 01978 362387 |
| Denzil Rees | Netherwood, 27 Bryntawe Road, Ynystawe, Swansea SA6 5AD 01792 842470 |
| M. Gaenor Thomas | Islwyn, 1021 Carmarthen Road, Fforestfach, Swansea SA5 4AF 01792 420198 |
| Derek Grattidge | 118 Cedar Way, Penarth, Vale of Glam CF64 3PX 029 2070 5684 |
| Richard Williams | 8 West Roedin, Coedeval, Cwmbran NP44 7EB 01633 484362 |

**Bandiau Chwyth/Wind Bands**

| | |
|---|---|
| Sean O'Neill | 6 Springfield Lane, Rhiwderin Village, Newport NP10 8QZ 07966 131901 |

**Cerdd Traddodiadol/Welsh Traditional Music**

| | |
|---|---|
| Dafydd Idris Edwards | 30 Rhodfa Pencoed, Y Comin, Pontypridd, Mid Glam CF37 4AN 01443 405323 |
| Siân Tomos | TRAC, PO Box 248, Cardiff, CF11 1DP 029 2031 8863 |

**Cerddoriaeth Ieuenctid/Youth Music**

| | |
|---|---|
| David Mabey | 25 St Ilans Way, Caerphilly, Mid Glam CF83 1EW 029 2088 3815 |

Yng **Nghŷ Cerdd** hefyd/also in **Tŷ Cerdd-Music Centre Wales**

| | |
|---|---|
| *Canolfan Hysbysrwydd Cerddoriaeth Cymru/* | Ruth Leggett |
| *Welsh Music Information Centre:* | Charlotte Griffin |
| *Stiwdio Recordio/Recording Studio:* | James Clarke |

# RHAGARWEINIAD Y CADEIRYDD

Eleni eto gwelwyd cynnydd yng ngweithgareddau Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru. Fel sefydliad ymbarél, mae'n ymdrechu i gefnogi cerddora yn yr holl feysydd y mae ein haelodau yn ymwneud â nhw, ac, er ei bod wedi'i leoli yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd, mae'n ymestyn allan i bob rhan o'r Dywysogaeth. Fel un o asiantaethau preswyl Canolfan Mileniwm Cymru, mae cyfraniad perfformwyr y Ffederasiwn, drwy'r Tŷ Cerdd, i gyngherddau'r Cyntedd yn ennyn croeso brwd ac mae hyn yn parhau i chwarae rôl hanfodol yn y dasg o gynnal a chadw CMC yn ganolfan fywiog i'r celfyddydau perfformio.

Yn ei adroddiad, mae'r Cyfarwyddwr yn darparu adolygiad llawn a manwl iawn o waith y Ffederasiwn. Bu ef a'i staff yn ddygn a diflino eu hymdrechion. Mae'r gweithdai, y deunydd cyflwyno sydd bellach yn cael ei baratoi'n fewnol, yn ogystal â'r dasg o weinyddu'r Ensemblau Ieuenctid Cenedlaethol yn tystio i'r cynnydd yn y llwyth gwaith gweinyddol. Mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn mynnu ac yn derbyn ymrwymiad o lefel uchel oddi wrth staff y Tŷ Cerdd, a diolchwn yn fawr iddynt am hynny.

Un ffordd y gallwn barhau i greu effaith fwy trawiadol yw drwy sicrhau bod ein gwaith a'n barn yn dod hyd yn oed yn fwy hysbys ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Mae dylanwad Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn y Tŷ Cerdd yn amlwg iawn oddi mewn i gylchoedd byd addysg, y byd gwleidyddol a byd cerdd, ond byddai sicrhau proffil uwch ymhlith y cyfryngau yn ein galluogi i fod yn rym cryfach fyth.

Roedd perfformiadau Cerddorfa Ieuenctic Simon Bolivar o Venezuela yn ystod haf eleni yn gwbl wefreiddiol. Gadawodd safon eu chwarae, ynghyd â gorfoledd ac afiaith pur y bobl ifanc, argraff fydd yn para am hir. Ond y neges y tu cefn i'w perfformiad yw'r system addysg sy'n dwyn yr enw *El Sostema*, a dyma sy'n gyfrifol am y ffrwyth hwn. Mae pob plentyn, waeth pa mor dlawd, yn cael cynnig offeryn a gwersi rhad ac am ddim. Mae oddeutu 250,000 yn rhan o'r fenter ar hyn o bryd. Y nod yw nid yn gymaint cynhyrchu perfformwyr o safon broffesiynol eithriadol, er bod hynny'n digwydd, ond i greu amgylchfyd lle mae cyfrifoldeb, parch a chydweithio drwy gariad at gerddora yn dod yn rhan o fywyd. Er nad ydym ni, efallai, yn dilyn yr union fodel hyfforddiant â nhw, mae'n sicr bod yna wersi i'w dysgu wrth sicrhau fod cyfleoedd ar gael a bod pob plentyn ac oedolyn yn derbyn anogaeth.

Yn ein Ffederasiwn ni ein hunain, gwelwn enghreifftiau o blith y nifer fawr o bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant a'r perfformio (ac mae hynny, o ganlyniad, yn mynd yn rhan hanfodol o'u bywydau fel oedolion) yn rhoi nôl i'r gymuned yr arbenigedd a enillwyd ganddynt. Nid oes unrhyw rwystrau cefndir neu oed yn perthyn i gerddora. Mae'n gynhwysol yn yr ystyr orau, ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar yr unigolyn a'r gymuned fel ei gilydd.

Bydd arolygon ac adroddiadau di-rif yn dweud wrthym yn barhaus yr hyn rydym ni'n ei wybod eisoes, sef bod cerddoriaeth yn cael effaith alluogol ar bob un ohonom ac y dylid cynnwys darpariaeth gerddorol yn rhan o gyfansoddiad cymdeithas o gyfnodau cynharaf byd addysg a thrwy gydol yr hyn sy'n weddill o gyfnod bywyd unigolyn. Mae'r Ffederasiwn, ynghyd â'i holl aelodau, yn ymdrechu'n barhaus i wneud eu gorau glas i sicrhau hyn.

*Avril Harding*
*Cadeirydd*

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

Mae'n bleser gennym nodi fod nifer aelodau'r Ffederasiwn ar hyn o bryd wedi cyrraedd oddeutu 400 o gymdeithasau, a thrwy hynny cyrhaeddwyd y nod a bennwyd ar gyfer 2006-07. Mae hyn yn gryn gamp yn achos y rhai hynny sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol dros Gymru benbaladr, ac mae'r unigolion hyn, er gwaethaf yr holl bwysau cystadleuol sy'n nodweddu bywyd ein hoes ni, yn dal i gynnal traddodiad o gerddora cyfunol a byw yn eu cymunedau lleol. Mae hyn yn cynrychioli cyfraniad hanfodol bwysig, nid yn unig i ddiwylliant, ond hefyd i gydlyniad cymdeithasol y cymunedau hynny.

Mae'r swyddogion ac aelodau rhwydwaith y pwyllgor yn ymgymryd â strwythur cynhwysfawr a chyfredol er mwyn monitro a gwerthuso cynnydd drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau "hunan arfarnu" gan y cymdeithasau hynny sy'n derbyn grantiau perfformio neu warantau. Mae'r manylion blynyddol am aelodaeth, ystod oedran, diwrnodau ymarfer a lleoliadau, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol oddi wrth bob cymdeithas yn creu cronfa ddata unigryw sy'n cynnwys bron 20,000 o berfformwyr ac yn gyfrwng i asesu tueddiadau a datblygiad. O astudio'r gronfa hon, nodwn unwaith eto gynnydd cyffredinol bychan ond arwyddocaol yng nghanran aelodau'r cymdeithasau sydd dan 30 oed (o 23% yn 2005 i 25.35 yn 2006 i 26.8% yn 2007); gwrthbwysir hyn gan rywfaint o ostyngiad yn nifer yr aelodau rhwng 45 – 60 (o 25% i 24.4% i 23.6%). Dengys hyn fod y cymdeithasau newydd sy'n ymuno â'r Ffederasiwn yn denu eu haelodau o blith y to iau yn gyffredinol, ac mae'r tuedd yn fwyaf amlwg ymhlith grwpiau corawl cymysg ac ensemblau offerynnol. (Er hynny, yng ngorllewin Cymru, lle mae cyfartaledd aelodaeth y cymdeithasau ychydig yn uwch, mae canran y perfformwyr iau yn arwyddocaol is, gyda chanran uwch gyfatebol o berfformwyr dros eu 60 oed.) Am y tro cyntaf, rydym yn cofnodi nifer y rhai hynny dros 75 oed sy'n parhau i gymryd rhan weithredol mewn cerddora drwy gymdeithasau'r Ffederasiwn. Er bod y ffigurau a dderbyniwyd yn awgrymu mai 3.6% yn unig o'r cyfranogwyr sydd dros 75 oed, mae hyn, yn arbennig o'i ystyried ar y cyd gyda'r 31.3% sydd rhwng 60-75, yn tanlinellu'r gwerth holistig sydd i'w gael i'r henoed hyn wrth iddynt gymryd rhan mewn perfformiadau cerddorol, ac nid lleiaf cyn belled ag y mae materion cymdeithasol ac iechyd yn y cwestiwn. Dathlwn natur gynhwysol cerddora drwy'r cenedlaethau.

Yn gyffredinol, mae aelodaeth cymdeithasau Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn adlewyrchu demograffeg Cymru, fel a ganlyn:

- Gogledd Cymru: 81 o gymdeithasau, gydag 4,009 o aelodau
- Gorllewin Cymru: 112 o gymdeithasau, gyda 5,138 o aelodau
- De Ddwyrain Cymru: 198 o gymdeithasau, gyda 9,576 o aelodau
- Cymru gyfan: 9 cymdeithas, gyda 415 o aelodau

Mae'r Ffederasiwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol yn ogystal â chefnogaeth artistig a datblygiadol i gerddoriaeth mewn cymunedau lleol ar hyd a lled Cymru. Ychwanegir yn sylweddol iawn at y gefnogaeth ariannol gweddol fach hon gan ymdrechion y cymdeithasau eu hunain i gwrdd â chostau hybu perfformiadau a digwyddiadau eraill. Yn y flwyddyn ariannol 2006-07 *(ffigurau ar gyfer 2005-06 mewn cromfachau)* dyfarnwyd nawdd ariannol fel a ganlyn:

- cafodd 544 (535) o geisiadau eu prosesu;
- i 50 *(45)* o Gorau Cymysg a Cherddorfeydd tuag at 132 *(133)* perfformiad rhwng Ionawr 2006 ac Awst 2007, gyda chyfanswm nifer y gynulleidfa yn 23,712 *(26,464)* tra bod cyfanswm gwariant y cymdeithasau hyn yn £654,633 *(£401,484)* yn erbyn cyfraniad o £34,425 *(£33,000)* gan y Ffederasiwn;
- i 42 *(39)* o Gymdeithasau Theatr Gerdd tuag at 90 *(86)* o sioeau yn cynrychioli 408 *(393)* perfformiad gyda chyfanswm y gynulleidfa yn 103,542 *(110,757)* ac yn cynnwys cyfanswm gwariant o £1,166,188 *(£1,125,839)* gan y cymdeithasau hyn yn erbyn cyfraniad o £27,920 *(£27,500)* gan y Ffederasiwn;
- derbyniodd 181 *(169)* o fandiau a chorau grantiau ar gyfer sgorau;
- derbyniodd 82 *(89)* o gorau meibion neu gorau merched grantiau tuag at gostau teithio arweinwyr a/neu gyfeilyddion;
- derbyniodd 29 *(28)* o fandiau grantiau atgyweirio offerynnau.
- *ariannwyd 15 (11)* o weithdai, cystadlaethau neu fwrsariaethau;
- gwariwyd £6,900 *(£7,012)* ar gomisiynu cerddoriaeth, naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd gyda sefydliadau eraill;
- gwariwyd £6864 *(£7,615)* ar sgorau ar gyfer y llyfrgell fenthyg;

Yn ychwanegol at y perfformiadau a ariannwyd yn uniongyrchol gan y Ffederasiwn, amcangyfrifir bod 4,500 o berfformiadau wedi eu rhoi gan gymdeithasau y mae'r Ffederasiwn yn eu cefnogi a hynny i gyfanswm cynulleidfa o ymhell dros hanner miliwn.

Roedd presenoldeb mewn ymarferion yn ystod y flwyddyn yn 1.5 miliwn.
Yn ystod yr un cyfnod, mynychodd dros 8,000 y 126 o gyngherddau cyntedd rhad am ddim sy'n cael eu hyrwyddo gan y Tŷ Cerdd yng Nghanolfan y Mileniwm, ac roedd aelod gymdeithasau'r Ffederasiwn yn ymwneud â'r mwyafrif helaeth o'r rhain. Dylid nodi fod llawer o gymdeithasau, yn ychwanegol at eu rhaglen ddigwyddiadau eu hunain, yn cyfrannu at nifer o wahanol achosion elusennol drwy hybu cyngherddau ychwanegol (na all y Ffederasiwn gynnig unrhyw nawdd ariannol ar eu cyfer) mewn partneriaeth â'r elusennau hyn.

Parhawyd i roi cefnogaeth ariannol a gweinyddol i'r chwech o ensemblau sy'n rhan o gylch gorchwyl y Ffederasiwn – y Band Pres Cenedlaethol, y

Côr, y Côr Hyfforddi, y grŷp Jas, y Gerddorfa Chwyth a Band Pres Symffonig Ieuenctid Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- 467 (418) o geisiadau oddi wrth gerddorion ifanc;
- 409 (393) o glyweliadau a gynhaliwyd dros Gymru gyfan;
- 8 (7) cwrs preswyl;
- 74 (73) gweithdy/ymarferion;
- 13 (14) perfformiad (gan gynnwys Proms y BBC);
- 3 (3) recordiad;
- 2 (3) darllediad;
- taith gyngerdd i Ganada (BPCIC).

Eleni, yn sgil gwaith gweinyddol a gwariant y Ffederasiwn, gyda chyfraniad ariannol ychwanegol drwy bartneriaeth Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ac oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, galluogwyd y chwe ensemble y mae'r Ffederasiwn yn gyfrifol amdanynt i gyflwyno rhaglenni gwaith sy'n mynd yn fwyfwy uchelgeisiol. Roedd y gwariant hefyd yn cynnwys grant gan y Ffederasiwn (£1,500) i Gerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru a fu'n perfformio yn Ischia, yn ychwanegol at y daith gyngerdd a drefnwyd ar eu cyfer yng Nghymru.

Mae cystadleuaeth y Theatr Gerdd: Cantorion Ifanc y Flwyddyn a'r digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â'r Theatr honno yn parhau i ffynnu, a bu'r gweithdai a gynhaliwyd, yn ogystal â'r gystadleuaeth, yn hynod lwyddiannus.

Parhaodd y rhaglen o weithdai corawl a hyrwyddwyd ar y cyd gyda'r BBC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain (Cymru) drwy'r flwyddyn, a chafwyd cefnogaeth dda i'r tri digwyddiad a drefnwyd yng ngogledd, gorllewin a de ddwyrain Cymru. Cynhaliwyd tri gweithdy arbrofol ar y repertoire corawl yng Nghanolfan y Mileniwm, ac fe'u mynychwyd gan dros 200 o gantorion.
Dan ei gynlluniau Datblygu a Phrosiectau fel rhan o'r Tŷ Cerdd, mae'r Ffederasiwn wedi parhau i weithio gyda gwasanaethau cerdd awdurdodau addysg lleol, ac yn fwy diweddar gydag ysgolion ym Mlaenau Gwent, mewn prosiectau sydd â chynhwysiad cymdeithasol yn nod iddynt ac wrth y gwaith o ddatblygu gweithgaredd cerdd allgyrsiol ehangach. Mae'r bartneriaeth hon wedi cynnwys trefnu perfformiadau a sesiynau recordio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Mae Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru yn parhau i gysylltu gyda nifer o wahanol sefydliadau cerdd, ac yn eu plith y Cymdeithasau i Fandiau Pres a Chorau Meibion, *Making Music* (NFMS), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Corawl Prydain, *The Performing Rights Society Foundation*; adran Addysg y BBC; adran Addysg Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, ac eraill. Mae'n cydweithio'n agos gyda'i sefydliadau partneriaethol oddi mewn i'r Tŷ Cerdd a gyda Chanolfan y Mileniwm yn ogystal â'r cwmnïau

preswyl eraill sydd yno - Academi, Diversions, Hijinx, Ymddiriedolaeth Touch Trust, Urdd Gobaith Cymru a'r Cwmni Opera Cenedlaethol – er mwyn cyflwyno rhaglenni sy'n ymwneud ag addysg a hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig. Bydd y Cyfarwyddwr yn mynychu cyfarfodydd CAGAC (Rhwydwaith Gwasanaethau Cerdd yr Awdurdodau Lleol), Grŷp Cerdd Gogledd Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae'r Ffederasiwn yn aelod o Gelfyddydau Gwirfoddol Cymru a chyrff eraill ar faterion yn ymwneud â'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer cerddoriaeth yng Nghymru.

Mae'r Ffederasiwn yn cyfrannu i Daflen Newyddion y Tŷ Cerdd sy'n cael ei chyhoeddi deirgwaith y flwyddyn, a'i gosod ar y we. Bu hyn yn ddull poblogaidd a defnyddiol o dynnu sylw at weithgareddau cyfredol yn ogystal â digwyddiadau i ddod. Mae'r ardal "galw heibio" am wybodaeth ac arddangos yn swyddfeydd y Tŷ Cerdd hefyd yn ffenestr siop boblogaidd sy'n hybu ymholiadau ynglŷn â gwaith y Ffederasiwn a'r Tŷ Cerdd, yn ychwanegol at y miloedd lawer o ymholiadau a dderbynnir bob blwyddyn, ac yn eu plith geisiadau am gyngor ar repertoire, nawdd ariannol, ysgrifennu a darllen cerddoriaeth, ffurfio neu ymuno â chymdeithas gerdd, darparu ensemblau cerdd ar gyfer amryfal ddigwyddiadau, gwersi cerdd i blant, ac ati.

Cafodd aelodau pwyllgorau Arbenigol a Gweithredol y Ffederasiwn am y cyfnod rhwng Medi 2006 hyd at fis Awst 2008 eu henwebu a'u hethol gan y cymdeithasau cyswllt, ac mae gan y Pwyllgor Gweithredol gynrychiolaeth gyfartal drwy Gymru gyfan. Eisoes, dangosodd y pwyllgor newydd ei fedrusrwydd, ac rydym yn ddiolchgar am arweiniad doeth ei aelodau wrth i'r Ffederasiwn barhau i chwarae rhan hanfodol ym mywyd cerddorol Cymru.

*Keith Griffin*
*Cyfarwyddwr*

# CYMDEITHASAU
# SOCIETIES 2007

## Bandiau Pres
## Brass Bands

| Gogledd Cymru (17) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 532 | 114 | 90 | 55 | 7 | 786 |
| Cyfartaledd/Average | 31 | 7 | 5 | 3 | 0 | 47 |
| Canran/Percentage | 66.7 | 14.3 | 11.3 | 6.9 | 0.9 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (13) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 233 | 125 | 63 | 45 | 2 | 468 |
| Cyfartaledd Membership | 18 | 10 | 5 | 3 | 0 | 36 |
| Canran Membership | 49.8 | 26.7 | 13.5 | 9.6 | 0.4 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (37) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 749 | 306 | 181 | 89 | 9 | 1334 |
| Cyfartaledd/Average | 20 | 8 | 5 | 2 | 0 | 36 |
| Canran/Percentage | 56.1 | 22.9 | 13.6 | 6.7 | 0.7 | 100.0 |
| CYMRU (69) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 507 | 1582 | 545 | 334 | 189 | 2668 |
| Cyfartaledd/Average | 23 | 8 | 5 | 3 | 0 | 39 |
| Canran/Percentage | 59.3 | 20.4 | 12.5 | 7.1 | 0.7 | 100.0 |

*DS Mae Cymru Gyfan yn cynnwys yr Ensemblau Pres Cenedlaethol i Ieuenctid*
*NB All Wales Includes National Youth Brass Ensembles*

## Corau Merched
## Ladies Choirs

| Gogledd Cymru (6) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 16 | 59 | 96 | 59 | 2 | 232 |
| Cyfartaledd/Average | 3 | 10 | 16 | 10 | 0 | 39 |
| Canran/Percentage | 6.9 | 25.4 | 41.4 | 25.4 | 0.9 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (9) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 25 | 63 | 143 | 131 | 16 | 378 |
| Cyfartaledd/Average | 3 | 6 | 13 | 13 | 2 | 38 |
| Canran/Percentage | 6.6 | 16.7 | 37.8 | 34.7 | 4.2 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (15) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 11 | 112 | 181 | 250 | 26 | 580 |
| Cyfartaledd/Average | 0 | 3 | 5 | 7 | 1 | 16 |
| Canran/Percentage | 1.9 | 19.3 | 31.2 | 43.1 | 4.5 | 100.0 |
| CYMRU (30) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 52 | 234 | 420 | 440 | 44 | 1190 |
| Cyfartaledd/Average | 2 | 8 | 14 | 15 | 1 | 40 |
| Canran/Percentage | 4.4 | 19.7 | 35.3 | 37.0 | 3.7 | 100.0 |

## Corau Meibion
## Male Choirs

| Gogledd Cymru (30) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 29 | 138 | 335 | 595 | 104 | 1201 |
| Cyfartaledd/Average | 1 | 5 | 12 | 22 | 4 | 44 |
| Canran/Percentage | 2.4 | 11.5 | 27.9 | 49.5 | 8.7 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (30) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 15 | 85 | 404 | 766 | 187 | 1457 |
| Cyfartaledd/Average | 1 | 3 | 14 | 27 | 7 | 52 |
| Canran/Percentage | 1.0 | 5.8 | 27.7 | 52.6 | 12.8 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (47) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 69 | 175 | 667 | 1343 | 177 | 2432 |
| Cyfartaledd/Average | 1 | 4 | 13 | 27 | 4 | 49 |
| Canran/Percentage | 2.8 | 7.2 | 27.4 | 55.2 | 7.3 | 100.0 |
| CYMRU (108) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 116 | 401 | 1435 | 2771 | 471 | 5195 |
| Cyfartaledd/Average | 1 | 4 | 13 | 26 | 4 | 48 |
| Canran/Percentage | 2.2 | 7.7 | 27.6 | 53.3 | 9.1 | 100.0 |

## Cerddorfeydd ac Ensemblau Offerynnol
## Orchestras and Instrumental Ensembles

| Gogledd Cymru (1) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 15 | 12 | 24 | 9 | 0 | 60 |
| Cyfartaledd/Average | 15 | 15 | 24 | 9 | 0 | 60 |
| Canran/Percentage | 25.0 | 20.0 | 40.0 | 15.0 | 0.0 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (4) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 93 | 74 | 57 | 28 | 2 | 254 |
| Cyfartaledd/Average | 23 | 19 | 14 | 7 | 1 | 64 |
| Canran/Percentage | 32.6 | 29.1 | 22.4 | 11.0 | 0.8 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (6) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 197 | 71 | 59 | 21 | 2 | 350 |
| Cyfartaledd/Average | 33 | 12 | 10 | 4 | 0 | 58 |
| Canran/Percentage | 56.3 | 20.3 | 16.9 | 6.0 | 0.6 | 100.0 |
| CYMRU (13) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 445 | 157 | 140 | 58 | 4 | 804 |
| Cyfartaledd/Average | 34 | 12 | 11 | 4 | 0 | 62 |
| Canran/Percentage | 55.3 | 19.5 | 17.4 | 7.2 | 0.5 | 100.0 |

*DS Mae Cymru Gyfan yn cynnwys yr Ensemblau Cenedlaethol i Ieuenctid*
*NB All Wales Includes National Youth Ensembles*

## Corau SATB
## SATB Choirs

| Gogledd Cymru (17) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 149 | 151 | 274 | 410 | 25 | 1009 |
| Cyfartaledd/Average | 9 | 9 | 16 | 24 | 1 | 59 |
| Canran/Percentage | 14.8 | 15.0 | 27.2 | 40.6 | 2.5 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (30) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 148 | 238 | 457 | 740 | 37 | 1620 |
| Cyfartaledd/Average | 5 | 8 | 15 | 25 | 1 | 54 |
| Canran/Percentage | 9.1 | 14.7 | 28.2 | 45.7 | 2.3 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (53) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 643 | 442 | 856 | 1027 | 66 | 3034 |
| Cyfartaledd/Average | 12 | 8 | 16 | 19 | 1 | 57 |
| Canran/Percentage | 21.2 | 14.6 | 28.2 | 33.8 | 2.2 | 100.0 |
| CYMRU (101) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 1035 | 829 | 1584 | 2101 | 124 | 5673 |
| Cyfartaledd/Average | 10 | 8 | 16 | 21 | 1 | 56 |
| Canran/Percentage | 18.2 | 14.6 | 27.9 | 37.0 | 2.2 | 100.0 |

*DS Mae Cymru Gyfan yn cynnwys Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru*
*NB All Wales Includes National Youth Choir*

## Cymdeithasau Sioeau Cerdd
## Musical Theatre Societies

| Gogledd Cymru (10) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 374 | 90 | 89 | 51 | 8 | 612 |
| Cyfartaledd/Average | 37 | 9 | 9 | 5 | 1 | 61 |
| Canran/Percentage | 61.1 | 14.7 | 14.5 | 8.3 | 1.3 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (19) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 442 | 219 | 143 | 102 | 3 | 889 |
| Cyfartaledd/Average | 28 | 15 | 10 | 7 | 0 | 59 |
| Canran/Percentage | 47.5 | 24.6 | 16.1 | 11.5 | 0.3 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (32) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 798 | 306 | 290 | 204 | 11 | 1609 |
| Cyfartaledd/Average | 25 | 10 | 9 | 6 | 0 | 50 |
| Canran/Percentage | 49.6 | 19.0 | 18.0 | 12.7 | 0.7 | 100.0 |
| CYMRU (59) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 1621 | 614 | 525 | 368 | 23 | 3151 |
| Cyfartaledd/Average | 27 | 10 | 9 | 6 | 0 | 53 |
| Canran/Percentage | 51.4 | 19.5 | 16.7 | 11.7 | 0.7 | 100.0 |

## Cerddorfeydd Chwyth
## Wind Orchestras

| Gogledd Cymru (3) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 46 | 13 | 23 | 13 | 2 | 97 |
| Cyfartaledd/Average | 15 | 4 | 8 | 4 | 1 | 32 |
| Canran/Percentage | 47.4 | 13.4 | 23.7 | 13.4 | 2.1 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (2) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 26 | 17 | 17 | 8 | 4 | 72 |
| Cyfartaledd/Average | 13 | 9 | 9 | 4 | 2 | 36 |
| Canran/Percentage | 36.1 | 23.6 | 23.6 | 11.1 | 5.6 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (6) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 150 | 40 | 40 | 4 | 3 | 237 |
| Cyfartaledd/Average | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| Canran/Percentage | 63.3 | 16.9 | 16.9 | 1.7 | 1.3 | 100.0 |
| CYMRU (12) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 273 | 70 | 80 | 25 | 9 | 457 |
| Cyfartaledd/Average | 23 | 6 | 7 | 2 | 1 | 38 |
| Canran/Percentage | 59.7 | 15.3 | 17.5 | 5.5 | 2.0 | 100.0 |

*DS Mae Cymru Gyfan yn cynnwys Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru*
*NB All Wales Includes National Youth Wind Orchestra*

## Y Cymdeithasau i Gyd
## All Societies

| Gogledd Cymru (81) North Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth/Membership | 1161 | 577 | 931 | 1192 | 148 | 4009 |
| Cyfartaledd/Average | 14 | 7 | 11 | 15 | 2 | 49 |
| Canran/Percentage | 29.0 | 14.4 | 23.2 | 29.7 | 3.7 | 100.0 |
| Gorllewin Cymru (112) West Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 982 | 821 | 1284 | 1820 | 251 | 5138 |
| Cyfartaledd/Average | 10 | 8 | 13 | 18 | 2 | 51 |
| Canran/Percentage | 19.1 | 16.0 | 25.0 | 35.0 | 4.9 | 100.0 |
| De-Ddwyrain Cymru (198) S E Wales | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-75 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 2617 | 1452 | 2274 | 2938 | 294 | 9576 |
| Cyfartaledd/Average | 13 | 7 | 11 | 15 | 1 | 48 |
| Canran/Percentage | 27.3 | 15.2 | 23.7 | 30.7 | 3.1 | 100.0 |
| CYMRU (392) WALES | 15-30 | 30-45 | 45-60 | 60-70 | 75+ | Cyf/Total |
| Aelodaeth/Membership | 5124 | 2850 | 4518 | 5952 | 693 | 19138 |
| Cyfartaledd/Average | 13 | 7 | 12 | 15 | 2 | 50 |
| Canran/Percentage | 26.8 | 14.9 | 23.6 | 31.3 | 3.6 | 100.0 |

*DS Mae Cymru Gyfan yn cynnwys ensemblau cerdd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru*
*NB All Wales Includes National Youth Arts Wales music ensembles*

# GWOBR W.S.GWYNN WILLIAMS

Ar argymhelliad y Cadeirydd, mae'r Ffederasiwn yn cyflwyno'r wobr hon yn flynyddol i'r gymdeithas yr ystyria ei bod wedi gwneud y cynnydd mwyaf ym maes cerddora gan amaturiaid yn y ddwy flynedd flaenorol. Mae'r wobr hon, sy'n cael ei rhoi er cof am Gadeirydd a sylfaenydd y Ffederasiwn, yn werth £750. Cyhoeddir enw enillydd Gwobr 2007 yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Dyma enwau enillwyr blaenorol:

1980 Cymdeithas Gorawl Colwyn
1981 Cantorion Cadeirlan Aberhonddu
1982 Philomusica Aberystwyth
1983 Band Pres Ystrad Mynach
1984 Cantorion Sirenian
1985 Band Pres CIC
1986 Band Pres Penclawdd
1987 Côr Meibion Silurian Rhymni
1988 Cymdeithas Gorawl Llandaf
1989 Côr Ieuenctid Oakdale
1990 Band Pres Deiniolen
1991 Côr Bach Abertawe
1992 Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd
1993 Cymdeithas Gorawl Mynwy
1994 Côr Meibion Froncysyllte
1995 Band Tref Rhydaman
1996 Cymd. Gorawl yr Wyddgrug
1997 Côr Meibion Risca
1998 Band Tref Blaenafon
1999 Côr CIC
2000 CAOD Y Fenni
2001 Colstars (Aberdâr)
2002 Band Porthaethwy
2003 Cwni "Unknown Theatre"
2004 Ceddorion Ifanc Hemiola
2005 Cym. Gorawl Cruchywel
2006 Band Pres BTM/Band Press Parc & Dare

# GWEITHGAREDDAU IEUENCTID
# YOUTH ACTIVITIES

## Aelodaeth CCIC 2007 /NYAW Membership 2007

(key: applied /members

| Awdurdod Unedol<br>Unitary Authority | BPCIC/<br>NYBBW<br>Canada | CCIC+<br>CHCIC/<br>NYCW +<br>NYTCW | DCIC/<br>NYDW | JCIC/<br>NYJW | CGIC/<br>NYOW | TGIC/<br>NYTW | CChGIC<br>NYWOW | CYFANSWM<br>TOTAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anglesey/Ynys Môn | 9/5 | 0/0+0 | 0/0 | 0/0 | 9/8 | 2/0 | 2/0 | 22/13 |
| Blaenau Gwent | 0/0 | 2/1+0 | 1/0 | 2/2 | 0/0 | 1/0 | 2/0 | 8/3 |
| Bridgend/PBOgwr | 0/0 | 8/2+1 | 3/1 | 0/0 | 16/5 | 2/2 | 4/0 | 33/11 |
| Caerphilly/Caerffili | 2/1 | 3/1+2 | 2/0 | 2/1 | 12/7 | 5/0 | 5/2 | 31/14 |
| Cardiff/Caerdydd | 15/3 | 13/2+8 | 10/2 | 7/0 | 50/28 | 28/4 | 28/14 | 151/61 |
| Carms/Sir Gâr | 9/3 | 15/9+2 | 6/2 | 2/2 | 18/8 | 25/6 | 5/2 | 80/34 |
| Ceredigion | 10/2 | 14/4+2 | 0/0 | 3/0 | 10/3 | 18/5 | 3/2 | 58/18 |
| Conwy | 2/0 | 4/2+1 | 2/0 | 0/0 | 6/4 | 10/1 | 2/1 | 26/9 |
| Denbs/Dinbych | 0/0 | 3/1+2 | 2/0 | 0/0 | 0/0 | 13/3 | 0/0 | 18/6 |
| Flintshire/Sir y Fflint | 1/1 | 17/8+4 | 2/0 | 1/0 | 6/3 | 1/1 | 2/0 | 30/17 |
| Gwynedd | 4/1 | 4/2+2 | 0/0 | 0/0 | 13/7 | 5/0 | 6/3 | 32/15 |
| Merthyr Tudful | 3/2 | 2/1+0 | 1/0 | 0/0 | 2/0 | 7/2 | 1/0 | 16/5 |
| Mon/Sir Fynwy | 11/4 | 2/1+0 | 2/1 | 12/1 | 11/6 | 16/4 | 8/2 | 62/19 |
| NPT/Castell NeddPT | 9/3 | 10/5+4 | 3/1 | 0/0 | 13/7 | 2/1 | 1/0 | 38/20 |
| Newpt/Casnewydd | 13/2 | 4/3+1 | 3/0 | 12/4 | 13/5 | 7/2 | 23/10 | 75/27 |
| Pembs/Sir Benfro | 6/4 | 4/4+0 | 6/0 | 14/6 | 21/3 | 14/1 | 16/8 | 81/27 |
| Powys | 2/1 | 5/4+0 | 9/1 | 3/0 | 8/7 | 20/6 | 0/0 | 47/19 |
| Rhondda C' Taff | 2/1 | 8/1+6 | 9/0 | 2/0 | 13/1 | 25/3 | 2/2 | 55/14 |
| Swansea/Abertawe | 13/1 | 19/5+10 | 13/2 | 2/0 | 13/6 | 13/1 | 7/3 | 80/28 |
| Torfaen | 7/5 | 1/0+0 | 0/0 | 3/0 | 4/3 | 4/0 | 4/2 | 23/10 |
| VofGlam/Bro Morg | 7/1 | 5/1+2 | 1/0 | 1/1 | 7/3 | 10/6 | 3/2 | 34/16 |
| Wrexham/Wrecsam | 1/0 | 2/1+1 | 4/0 | 0/0 | 10/3 | 2/1 | 6/2 | 25/8 |
| TOTAL | 126/40 | 145/<br>58+48 | 79/10 | 66/17 | 249/117 | 230/49 | 130/55 | 1025/394 |

## Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
arweinydd **Dr Robert Childs**

### Cyngherddau 2007
Theatr Donald, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd - Dydd Sul 8 Gorffennaf 3pm
Church of the Redeemer, Toronto - Dydd Mercher 25 Gorffennaf 8pm
Stockey Performing Arts, Parry Sound - Dydd Gwener 27 Gorffennaf 5pm
Parliament Hill, Ottawa - Dydd Sul 29 Gorffennaf 10.30am
Nathan Phillips Square, Toronto - Dydd Llun 30 Gorffennaf 12pm

### Repertoire 2007

| | |
|---|---|
| Ffanffer: Dolbadarn | Gareth Glyn |
| Palladio, Salm o Dewi Sant, Cù Chullain | Karl Jenkins tref./arr. D.Anthony Small |
| Vivat Regina | William Mathias |
| Variations on "Laudate Dominum" | Edward Gregson |
| Where Eagles Sing | Paul Lovatt-Cooper |
| Hunt the Hare, Mr Lear's Carnival | Elgar Howarth |
| Carnival | Paganini tref./arr. Alan Cathroe |
| Brilliante | Peter Graham |
| Softly Softly | Bridget Fry tref./arr. Ray Farr |
| Trumpet Blues and Cantabile | Harry James tref./arr. Geldard |
| March: Praise | Wilfred Heaton |
| March: The Canadian | Major J. Merritt |
| Men of Harlech, Ar Hyd y Nos | tref./arr. Gordon Langford |
| Ar Lan y Môr | tref./arr. Lee Baker |
| Sosban Fach | tref./arr. Gareth Wood |
| Y Deryn Pur | tref./arr. Alan Farnie |
| Myfanwy | Joseph Parry tref./arr. Stephens |

Dathlodd Band Pres Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ei ben-blwydd yn 25 oed gyda chyngerdd mawreddog yn Theatr Donald Gordon, Canolfan Mileniwm Cymru. Yn perfformio gyda'r Band roedd côr meibion cyfun gydag oddeutu 350 o leisiau, wedi'i drefnu gan Gymdeithas y Corau Meibion. Derbyniodd David Childs, yr unawdydd ewffoniwm gwadd, gymeradwyaeth hir gan y gynulleidfa fawr a chyflwynwyd y cyngerdd gan Robin Jones, S4C. Yn ystod yr wythnos ddilynol, gadawodd y Band am Ganada, a bu'r daith gyngerdd 10 diwrnod a gefnogwyd gan grant hael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn achlysur cofiadwy, nid yn unig am y cynulleidfaoedd croesawgar a gwerthfawrogol, ond hefyd am y cysylltiadau gafodd eu meithrin gyda Band Arian Hannaford Street. Chwaraewyr o'r band hwn (sy'n gweithio gyda cherddorfeydd y Cwmni Opera a Bale yn Toronto) oedd y tiwtoriaid yn yr ymarferion. Mae'n bosibl mai uchafbwynt cerddorol y daith gyngerdd oedd perfformiad y Band yn yr ŵyl ryngwladol ~ *Festival of the Sound* ~ yn Parry Sound; ymhlith yr uchafbwyntiau heb fod yn rhai cerddorol roedd yr ymweliad â Niagra, gêm pêl fas gyffrous – er anodd ei deall – y BlueJays, a'r *Museum of Civilisation* yn Ottowa. Enillodd y Band, dan gyfarwyddyd Dr Robert Childs, gryn glod iddynt eu hunain ac i gerddorion Cymreig. Fel y nododd un beirniad yn y *British Bandsman* yn dilyn cyngerdd dathlu'r 25 mlynedd, "The NYBBW is sure to be a worthy ambassador both of Welsh and brass music." Cyflawnwyd y disgwyliad hwnnw mewn ffordd ganmoladwy iawn.

## Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
arweinydd **Islwyn Evans**

### Cyngherddau 2007

Neuadd Frenhinol Albert, Llundain : 7.00yh Dydd Sul 21 Gorffennaf

Eglwys Pedr Sant, Y Rhath, Caerdydd : 7.30yh Nos Wener 27 Gorffennaf

### Repertoire 2007

| | |
|---|---|
| Let the People Praise Thee, O God | William Mathias |
| Hela Llwynog | Grace Williams |
| Ar lan y Môr | tref./arr. Evans |
| Pe Cawn Ni Hon | Mansel Thomas |
| Tair Rhangan Gysegredig | Hector MacDonald |
| Dros Gymru'n Gwlad | Jean Sibelius |
| Caneuon Dwys a Digri | Brian Hughes |
| Hodie Christus Natus Est | William Mathias |
| Cantique de Jean Racine | Gabriel Fauré |
| Requiem | Gabriel Fauré |

Uchafbwynt cwrs Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru eleni oedd cael ymddangos gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, dan arweiniad Thierry Fischer, yn y *BBC Proms* yn Neuadd Frenhinol Albert, Llundain. Roedd y cyngerdd hwn a roddwyd gerbron neuadd lawn hefyd yn cael ei ddarlledu ar BBC Radio 3 ac ar y rhyngrwyd. Dyma sylwadau *The Guardi*an ar eu perfformiad "the National Youth Choir of Wales brought translucent tone and immaculate phrasing to Fauré's *Cantique de Jean Racine* and *Requiem*. The latter was magically sung….." Roedd teithlen y Côr hefyd yn cynnwys recordio Cryno Ddisg o repertoire a gomisiynwyd yn wreiddiol ar gyfer CCIC, ac yn eu plith ddarnau gan Brian Hughes, Hector MacDonald a Mansel Thomas. Daeth wythnos y cantorion i ben gyda chyngerdd llwyddiannus yn Eglwys Pedr Sant, y Rhath, Caerdydd.

## Côr Hyfforddi Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
arweinydd **Tim Rhys Evans**

## Cyngherddau 2007

Eglwys y Priordy, Y Fenni: 7.45yh Dydd Sadwrn 3 Mawrth

## Repertoire 2007

| | |
|---|---|
| Gloria in Excelsis | Vivaldi |
| Domine Fili Unigenite | Vivaldi |
| Tre Saith | Dilys Elwyn Edwards |
| Ave Verum Corpus | Mozart |
| Daffodils | Mansel Thomas |
| Aberystwyth | Parry tref./arr. Howard |
| Mangwani m'pulele | tref./arr. Brewer |
| Dirait'on | Morten Lauridsen |
| Tra Bo Dau | tref./arr. Howard |
| Dafydd y Garreg Wen | tref./arr. Howard |
| Hela Sgyfarnog | tref./arr. Howard |
| Oremi | tref./arr. Brewer |

Daeth Côr Hyfforddi Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ynghyd ar gyfer cwrs preswyl pedwar diwrnod yng Nghanolfan y Mileniwm yn ystod gwyliau hanner tymor Chwefror. Dan arweiniad Tim Rhys Evans, gyda Jeffrey Howard yn cyfeilio, cynhaliwyd cyngerdd gan y Côr ar y cyd gyda Band Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a hynny gerbron neuadd orlawn frwdfrydig yn Y Fenni. Mae'r Côr eisoes yn darparu llwyfan hyfforddi gwerthfawr ar gyfer ei chwaer gôr hŷn, ond at hynny, ac mae hyn lawn mor bwysig i'r cantorion ifanc, mae'n cyrraedd safon uchel fel côr yn ei rinwedd ei hun.

## Jazz Cenedlaethol Ieuenctid Cymru
arweinydd **Stan Sulzmann**

### Cyngerddi 2006/07

Canolfan Mileniwm Cymru : 2.30yh Dydd Sul 29 Hydref

Neuadd y Sir, Cwmbrân : 7.30yh Dydd Sul 25 Tachwedd

### Repertoire 2006/07

| | |
|---|---|
| Alfredo | John Paricelli tref./arr. Sulzmann |
| Belas Knap | Henry Lowther |
| Bill's Idea | Alan Ganley |
| Jack Stix | Stan Sulzmann |
| Gentle Piece | Ken Wheeler |
| Mercy, Mercy, Mercy | Joseph Zawinul tref./arr. Wilson |
| Moaning | Charles Mingus tref./arr. Johnson |
| My One and Only Love | Mellin/Wood tref./arr. Ganley |
| Tenor Madness | Sonny Rollins tref./arr. Taylor |
| The Thrill is Gone | Henderson tref./arr. Sulzmann |
| Shiny Stockings | Frank Foster |
| Sidewinder | Lee Morgan tref./arr. Taylor |

Cyfarfu Jazz Cenedlaethol Ieuenctid Cymru ar gyfer dau gwrs penwythnos preswyl yng Nghanolfan y Mileniwm ym mis Hydref 2006 a Chwefror 2007. Cyfarwyddwr y 'Big Band' gyda'i 18 aelod oedd Stan Sulzmann, chwaraewr sacsoffon sydd wedi ennill bri rhyngwladol a Henry Lowther, Nikki Iles, Malcolm Edmonstone ac Andrew Bain oedd y tiwtoriaid.

## Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

### Cyngherddau 2007

European Parliament Youth Forum
Tŷ Crughywel, Caerdydd : Dydd Gwener 9 Mawrth 9.30am

Eglwys y Priordy, Y Fenni: Dydd Sadwrn 3 Mawrth

Senedd, Bae Caerdydd : Dydd Mawrth 5 Mehefin 11.15am

Eglwys Sant Ioan, Caerdydd : Dydd Sul 9 Medi 6pm Sunday

**Repertoire 2007** yn cynnwys / included

Fanfare: Yr Hen Wlad — Jeffrey Howard

*(Comisiynwyd gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru Tŷ Cerdd-Music Centre Wales gyda nawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.)*
*(Commissioned by the Welsh Amateur Music Federation at Tŷ Cerdd-Music Centre Wales with funding from the National Assembly for Wales.)*

Dathliad ac Emyn/Celebration and Hymn — Richard Elfyn Jones

*(Comisiynwyd gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru Tŷ Cerdd-Music Centre Wales i ddathlu agor Senedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Dydd Dewi Sant 2006)*
*(Commissioned by the Welsh Amateur Music Federation at Tŷ Cerdd-Music Centre Wales to celebrate the opening of the National Assembly for Wales Senedd on St David's Day, 2006)*

Petite Symphonie — Charles Gounod

Pedair Cân Werin — William Mathias

Canolbwynt tymor Band Pres Symffonig Cenedlaethol Ieuenctid Cymru oedd seremoni agor y trydydd Cynulliad gan Ei Mawrhydi, Y Frenhines, ar Ddydd Mawrth 5ed Gorffennaf. Roedd y digwyddiad, a ddarlledwyd yn fyw ar y teledu, yn cynnwys ffanffer gan Jeffrey Howard, a gomisiynwyd ar gyfer yr achlysur gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru gyda nawdd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymddangosodd band PSCIC hefyd fel ensemble llai o ran maint mewn nifer o ddigwyddiadau eraill ac yn eu plith seremoni agor fforwm i ieuenctid yn hybu gwaith Senedd Ewrop.

## Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru
arweinydd **Nigel Boddice**

### Cyngherddau 2007 Concerts

Theatr y Stiwt Theatre, Rhosllanerchrugog : Dydd Sadwrn 7 Ebrill 7.30pm

### Repertoire 2007

| | |
|---|---|
| Variations & Fugue on 'The Wee Cooper of Fife' | Cedric Thorpe Davie |
| Dances at Threave | John Maxwell Geddes |
| Solitary Dancer | Warren Benson |
| Donna Nobis Pacem | Martin Ellerby |
| Concerto for Percussion & Wind Band | Gareth Wood |

*premiere* (Simone Rebello - unawdydd/soloist)
*(Comisiynwyd ar gyfer Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru gan Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru Tŷ Cerdd-Music Centre Wales)*
*(Commissioned for the National Youth Wind Orchestra of Wales by the Welsh Amateur Music Federation at Tŷ cerdd-Music Centre Wales)*

| | |
|---|---|
| Cloudburst | Eric Whitacre |
| Four Dances from 'West Side Story' | Bernstein tref./arr. Polster |

Cynhaliodd Cerddorfa Chwyth Genedlaethol Ieuenctid Cymru ei gwrs preswyl blynyddol yn Ysgol Rhuthun yn ystod gwyliau'r Pasg. Dewiswyd rhaglen oedd yn cynnwys Consierto newydd ei chyfansoddi o waith Gareth Wood ar gyfer offer taro a band chwyth gan Nigel Boddice, yr arweinydd am eleni. Roedd yr wythnos o weithgareddau yn cynnwys sesiwn recordio Cryno Ddisg fydd yn cael ei rhyddhau ym mis Tachwedd 2007. Daeth y cwrs i ben gyda chyngerdd yn Theatr y Stiwt, Rhosllannerchrugog gerbron cynulleidfa fawr a hynod werthfawrogol. Dyma oedd gan *Winds Magazine* i'w ddweud am y perfformiad, "Every section of the Orchestra exemplified the work put in during rehearsals with technical fluency, well balanced playing and superb intonation."

# DULLIAU DARPARU CYMORTH ARIANNOL

**Perfformio:** Mae'r manylion am berfformiadau gan GORAU CYMYSG (CYMDEITHASAU CORAWL), CERDDORFEYDD a CHYMDEITHASU THEATR GERDD (OPERA AMATUR) y bu i'r Ffederasiwn gynnig gwarant iddynt yn erbyn colled, wedi eu cyhoeddi ar wahân ac maent ar gael oddi wrth y Ffederasiwn pan wneir cais amdanynt. Mae'r manylion yn cofnodi enw'r gymdeithas sy'n perfformio, yr arweinydd ac unawdwyr, repertoire, dyddiad(au) y perfformiad, lleoliad a phris tocynnau, y nifer yn bresennol, a'r nifer ar y llwyfan. Cyfeiria'r tabl grantiau isod at daliadau a wnaethpwyd yn y flwyddyn ariannol 1af Ebrill 2006 hyd 31ain Mawrth 2007.

**Cerddoriaeth a Theithio**: Mae manylion am grantiau a ddyfarnwyd o dan y cynlluniau prynu cerddoriaeth (pob BAND a CHÔR) a chostau teithio arweinyddion/cyfeilyddion i ymarferion (CORAU MERCHED, CORAU MEIBION yn unig) ar gyfer y flwyddyn galendr 2005 i'w gweld yn y tabl grantiau. Gwahoddir ceisiadau am wariant yn y flwyddyn galendr gyfredol (2006) erbyn diwedd y flwyddyn hon.

**Atgyweirio Offerynnau:** Unwaith eto, cynigiwyd grantiau i FANDIAU PRES a BANDIAU CHWYTH tuag at atgyweirio offerynnau. Mae'r manylion i'w gweld yn y tabl grantiau.

**Grantiau i Sefydliadau Cenedlaethol a Rhanbarthol:** Cyflwynodd y Ffederasiwn grantiau i TRAC, CLERA, GYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU a CHYMDEITHAS DAWNS WERIN CYMRU, tuag at eu rhaglenni gweithgareddau. Dyfarnwyd grantiau hefyd i GYMDEITHASAU BAND PRES CYMRU er mwyn hybu cystadlaethau i fandiau pres.

**Datblygiad a Phrosiectau:** Dan y pennawd hwn, mae'r Ffederasiwn yn cynnwys COMISIYNAU (naill ai'n rhag- neu'n adweithiol), PRYNU CYFARPAR (gan gynnwys technoleg gwybodaeth, sgoriau ar gyfer y llyfrgell, offerynnau, ac ati), GRANTIAU CYCHWYNNOL i helpu sefydlu cymdeithasau newydd, CYRSIAU CERDD, GWEITHDAI, a chefnogaeth arall ar gyfer hyfforddiant yn ogystal â BWRSARIAETHAU i bobl ifanc ac aelodau cymdeithasau cyswllt er mwyn iddynt fynychu cyrsiau arwain a chyrsiau hyfforddi eraill. O dan y pennawd hwn hefyd mae caffaeliadau'r LLYFRGELL.

*Dangosir yr holl ffigurau mewn £. Daw'r datganiad ariannol cryno hwn o'r cyfrifon llawn. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, dylech ddarllen y cyfrifon llawn am y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007, adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Mae'r cyfrifon wedi eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau a gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y Ffederasiwn.*

*Mae manylion llawn am Ddulliau'r Ffederasiwn o gynnig Cymorth Ariannol ar gael drwy wneud cais amdanynt. Mae'r rhain, ynghyd â ffurflenni cofrestru, ffurflenni cais ac amcangyfrif, hefyd ar gael ar y wefan: www.tycerdd.org*